CYNGOR CYMUNED BETWS

2005 10 Hydref Cofnodion

CYNGOR CYMUNED Y BETWS

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor yn Festri Capel Newydd, Betws ar Ddydd Mercher y 12fed o Hydref 2005 am 7.00 p.m.

YN BRESENNOL: Cynghorwr Loreen Lewis (Cadeirydd), Henadur D Arnallt James, Cynghorwyr Menna Roberts, Carwyn James, Peter Cowell, Anne Sizmur, Annette Price, Graham Vaughan, E Audrey Jones, June Gunter, Delyth Richards
a'r Cynghorwr Sir John D Evans.

YMDDIHEURIAD: Cynghorwr a Keith Rees.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
Dim.

1. I DDARLLEN AG YSTYRIED Y COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 14eg O FEDI 2005.
Roedd y newidiadau canlynol wedi cael ei wneud:-
2.2 Dywedodd Cynghorwr Carwyn James fod y mater yn Parc Penrhiw yn annerbyniol.
8.1 Cael gwared o'r llyn pysgod aur, Ty^ pwmp, gardd coffâd i gofféu am y mwyngloddio Cymuned Betws.
8.2 Hefyd roedd Cynghorwr Loreen Lewis yn bresennol yn y cyfarfod.

Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14eg o Fedi 2005 wedi cael ei gywiro a llofnodi.

2. MATERION YN CODI.
2.1 Ffordd Gerdded o Ffordd y Cyrnol, Betws i Ysgol y Betws.
Gofynnodd Cynghorwr June Gunter beth oedd yn digwydd yngly^n ar fater uchod. Roedd Cynghorwr Peter Cowell wedi adrodd fod y ffordd gerdded o Ffordd Y Cyrnol i Ysgol y Betws wedi cael ei glirio. Hefyd dywedodd Cynghorwr Peter Cowell fod Cynghorwr Sir John D Evans wedi ysgrifennu at Cyngor Sir Caerfyrddin i holi os gall y Cyngor Sir gwneud y llwybr troed yn wyneb caled.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.2 Parc Betws.
Ddarllenodd y Clerc e bost derbyniodd wrth Tanja James yngly^n ar gronfeydd i'r Parc - Trim Trail. Cadarnhaodd Cynghorwr Annette Price ei bod hi yn mynd i gael fwy of gwybodaeth wrth Tanja James.
NODWYD: y pwynt uchod.

2.3 Betws yn ei Blodau.
Dywedodd Cynghorwr Anne Sizmur ei bod hi wedi talu allan £37.60 am argraffu cwpan gwobr Betws yn ei Blodau. Cytunodd y Cynghorwyr i ad-dalu Cynghorwr Anne Sizmur.
PENDERFYNWYD: i dalu Cynghorwr Anne Sizmur y swm o £37.60.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Y Cwmni Camfa.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn cais wrth Cwmni Camfa yn gofyn

am caniataid wrth Cyngor Cymuned Betws i rhoi sedd neu fainc derwen ar y tir comin tu cefn i Leuad Llawn. Nid oedd gan y Cynghorwyr unrhyw wrthwynebiad, ond awgrymo'n nhw fod y Cwmni Camfa yn cysylltu â'r cominwyr.
PENDERFYNWYD: Bod y Clerc yn rhoi gwybod i'r Cwmni Camfa nid oedd gan y Cynghorwyr unrhyw wrthwynebiad.

3.2 Grw^p Aman o Cynghorau Lleol.
Ddarllenodd Y Clerc llythyr roedd hi wedi derbyn wrth Grw^p Aman o Gynghorau Lleol oedd yn gofyn i Gyngor Cymuned Betws i rhoi gynnig ffurfiol cyn eu Cynghorwyr yn dweud bod nhw am ymuno ac ymestyn gwahoddiad i'r Eisteddfod Genedlaethol i'r Dyffryn Aman yn 2012. Ddarllenodd Cynghorwr Anne Sizmur cynnig i'r Cynghorwyr. Trafododd y Cynghorwyr hyn ac roedd yn Cynghorwyr i gyd yn ffafrio cefnogi hyn .
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn danfon y cynnig I'r Grw^p Aman o Cynghorau Lleol.

3.3 Cais Cynllunio Twrban Gwynt.
Roedd Cynghorwr Graham Vaughan wedi holi am y cyn penderfyniad gwnaeth Cyngor Cymuned Betws yngly^n â'r Cais Cynllunio Twrban Gwynt. Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn gohebiaeth yngly^n â'r Cais Cynllunio Twrban Gwynt. Dywedodd Cynghorwr Peter Cowell nid yw'r penderfyniad mae Cyngor Cymuned Betws wedi rhoi ymlaen yn gallu cael ei dymchwelyd o fewn chwe mis. Penderfynwyd nid oedd y mater yn cael ei drafod ymhellach.
NODWYD: y pwynt uchod.

3.4 Mae'r ohebiaeth ganlynol wedi eu cydnabod ac mae'r cynnwys wedi eu nodi.
1. Cyngor Sir Caerfyrddin.
1.1 Dalen Newyddion Cartrefi Gofal i'r Henoed - rhoddwyd copi i Cynghorwr June Gunter.
1.2 Gwahoddiad i gyfarfod yngly^n â Gwaith Glo Betws ar y 11eg of Hydref 2005.
1.3 Ffurflen caniataid addurniadau amserol.
2. Un Llais I Gymru - Pwyllgor Ardal Caerfyrddin Agenda a Cofnodion.
3. Cymdeithas Teithwyr Rheilffordd Canol Cymru - rhoddwyd i Cynghorwr Carwyn James.

4. MATERION CYNLLUNIO.
4.1 Cytunwyd y ceisiadau isod gan Gyngor Cymuned Betws:-
E/11173 - Estyniad i ystafell wely
48 Parc Coetir, Betws
Adele Sparks (18)

E/11253 - Ymestyniad un llawr
16 Treforis, Betws
Mrs Donna Dennings (19)

E/11348 - Newid arfer uned storio
Profab 2000 Ltd, Gweithdy Parc Betws
Profab 2000 Ltd (20)

4.2 Mae'r Cyngor Sir wedi rhoi caniatâd i'r canlynol:-
E/10763 - Agwedd 2, 8 Ty^ Datblygiad Preswyl
Parc Coetir, Betws
Adeiladwyr Brodyr Griffiths (13)

E/09324 - Dadlwytho Adferiad Cyflwr
Gwaith Glo Betws
Glo Garreg Betws Ltd (21 2004/2005)

5. CYFRIFON.
1. BDO Stoy Hayward LLP (Ffi archwiliad allanol) £141.00

2. Cynghorwr Anne Sizmur £37.60
CYFANSWM £178.60
CYTUNWYD: I dalu'r biliau uchod.

Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr fod yr archwiliad allanol wedi cael ei gwblhau ac nid oedd unrhyw gyhoeddiad wedi cael ei godi.
NODWYD y pwynt uchod.

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd PC Geoff Harries y cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys. Adroddodd fod y troseddau canlynol wedi cael gwneud yn ardal Betws yn ystod mis Medi:-
2 ymosod, 1 eiddo gorfoledd, 2 eiddo cannabis ar Mynydd Betws, 1 lladrad o ffon symudol a 1 lladrad gerbyd. Ar hyn o bryd nid yw nhw wedi cael ei ddatrys.

Bu 255 o bobl ifainc yn bresennol yn y Disgo Glas a gynhaliwyd ym mis Medi. Mae'r Disgo Glas nesaf ar y 20fed o fis Hydref. Roedd Cynghorwr June Gunter wedi canmol yr Heddlu ar y gwaith anferth mae nhw'n gwneud yngly^n ar Discoau Glas.

Adroddodd Cynghorwr Sir John D Evans ei fod wedi derbyn cwyn fod cerbydau yn gyrru'n gyflym ger Heol Maescware a Mynydd Y Betws rhwng 8-9 y bore a 5-6 yr hwyr. Dywedodd PC Harries ei fod yn mynd i basio hwn ymlaen i PC Kevin Jones.

NODWYD: y pwyntiau uchod.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR
Roedd Cynghorwr Sir John D Evans wedi adrodd yngly^n â Safle Gwaith Glo Betws i'r Cynghorwyr.
NODWYD: y pwynt uchod.

8. ADRODDIADAU.
8.1 Llwybrau Troed.
Roedd Cynghorwr Peter Cowell wedi adrodd yngly^n ar lwybrau troed. Dywedodd eu bod ef a Roger Lewis wedi cwrdd gyda'r Swyddog Llwybrau yngly^n â 68/11, ac ers hynny mae ef wedi bod allan ar 3/8, mae'n gobeithio fydd y llwybr troed yn cael ei agor oherwydd fydd hyn yn gaffaeliad i'r Pentref.
NODWYD: y pwynt uchod.

9. UNRHYW FATER ARALL.
9.1 Pont ym Mharc Betws.
Gofynnodd Cynghorwr Peter Cowell os oedd y Clerc wedi derbyn ateb yngly^n â'r drefn cadwraeth y bont ym mharc Betws. Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr nid yw hi wedi derbyn ateb eto wrth Gerwyn Thomas.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Gerwyn Thomas.

9.2 Noson Trosedd.
Dywedodd Cynghorwr Anne Sizmur wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi trefnu noson trosedd.
NODWYD: y pwynt uchod.

9.3 Ysgol Gynradd Betws.
Gofynnodd Cynghorwr June Gunter os oedd y Clerc wedi derbyn ateb wrth Pennaeth Ysgol Gynradd Betws yngly^n â hi'n dod i'r cyfarfodydd misol Cyngor Cymuned Betws i rhoi wybodaeth i'r Cynghorwyr yngly^n â digwyddiadau'r Ysgol. Ymddiheurodd y Clerc oherwydd roedd hi'n meddwl bod Cynghorwr Anne Sizmur yn mynd i siarad gyda'r Pennaeth.
PENDERFYNWYD: bod y Clerc yn ysgrifennu at Pennaeth Ysgol Gynradd Betws i rhoi wahoddiad iddi i'r cyfarfod nesaf Cyngor Cymuned Betws.

9.4 Cymhorthaf y Cyngor.
Gofynnodd Cynghorwr Anne Sizmur os oedd y Cynghorwyr am barhau gyda'r Cymhorthaf y Cyngor. Trafodwyd yr uchod a phenderfynwyd bod Cynghorwyr Arnallt James ac Audrey Jones yn cynnal Cymhorthaf y Cyngor mis nesaf yn dechrau am 6.30 yn y nos a bod Cynghorwyr Arnallt James a Anne Sizmur yn cynnal y Cymhorthaf ym mis Rhagfyr.
NODWYD: y pwynt uchod.

9.5 Cyfarfod ar y 4ydd o Hydref 2005.
Dywedodd Cynghorwr Loreen Lewis wrth y Cynghorwyr bod y Clerc wedi derbyn llythyr cwyn sydd yn ynghylch un o'r Cynghorwyr o Cyngor Cymuned Betws.
Mae'r Clerc wedi cyfeirio'r llythyr ymlaen i Un Llais I Gymru ac mae hi'n aros am gyngor cyfreithlon. Fydd y Cynghorwyr yn cael gwybod am y cyngor derbyniwyd yn ei bryd.
NODWYD: y pwynt uchod.